## DATGANIAD EGLURHAOL

### Adolygiad Annibynnol o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

### Trefniadau Atebolrwydd a Llywodraethiant

Ym mis Ebrill 2025, comisiynodd y cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar a Phrif Weithredwr GIG Cymru adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi bod ar waith ers 14 o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r GIG yng Nghymru wedi bod drwy newidiadau sylweddol, gan gynnwys heriau digynsail y pandemig, ac mae'r Bartneriaeth wedi tyfu'n sylweddol ers ei sefydlu yn 2011.

Penodwyd Simon Dean yn adolygydd annibynnol. Dechreuodd Simon weithio yn GIG Cymru yn 2004 ac mae wedi gweithio mewn sawl swydd uwch, gan gynnwys Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Bu hefyd yn Ddirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru am nifer o flynyddoedd tan ei ymddeoliad yn 2021.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys Felindre, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a rhanddeiliaid eraill y GIG. Daeth i’r casgliad bod y fframwaith llywodraethiant ac atebolrwydd ar gyfer y Bartneriaeth a’i Phwyllgor yn gadarn yn ei hanfod, er y byddai’n elwa ar gael ei addasu rywfaint a’i gryfhau.

Mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi'u rhannu â Chadeiryddion Felindre ac â Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau. Mae'r adborth ar y cyd gan y Cadeiryddion wedi bod yn gadarnhaol, ac fe'i hystyriwyd yn Ymateb Cychwynnol Llywodraeth Cymru. Heddiw, rwy'n cyhoeddi'r adroddiad a’r Ymateb Cychwynnol.

Bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar ddatblygu a mireinio’r gwaith hwn a datblygu dealltwriaeth fanylach o’r meysydd a nodwyd i’w cryfhau.

Bydd hyn yn cael ei wneud drwy raglen gydweithredol o waith rhwng y ddau sefydliad a Llywodraeth Cymru i weithredu'r argymhellion gyda’r nod o gryfhau llywodraethiant ac atebolrwydd.

Hoffwn ddiolch i Simon Dean am ei gyfraniad amhrisiadwy a’i ymrwymiad wrth arwain yr adolygiad annibynnol, sydd wedi darparu mewnwelediadau pwysig i lywio cam nesaf y gwaith hwn.